



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Crynodeb Ymchwil Tai

## Gwerthusiad Interim y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Newydd i Gymru



### Cyflwyniad

Comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr astudiaeth hon fel gwerthusiad dros dro o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) ar gyfer Cymru. Mae HEES wedi bod yn weithredol ers mis Tachwedd 2000 ac yn brif fodd i Lywodraeth y Cynulliad ateb ei hymrwymiaidau o ran ei Strategaeth Tlodi Tanwydd. Anelir grantiau HEES at gartrefi bregus incwm isel, sy'n derbyn nifer o fudd-daliadau 'pasport'. Y rhagdybiaeth gyffredinol yw bod y rhan fwyaf o'r cartrefi hyn yn dioddef o dlodi tanwydd.

Amcanion yr astudiaeth yw:

- Asesu priodolrwydd y meini prawf cymhwyster
- Asesu digonolrwydd y cymorth a roddir i'r rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd
- Asesu pa mor sensitif i gynnydd ym mhpris tanwydd yw'r rhai a godwyd o dlodi tanwydd
- Sefydlu beth yw effaith cyflwyno rhagor o gymorth yn nhermau SAP uwch

### Methodoleg

Y mesur ar gyfer Tlodi Tanwydd a ddefnyddiwyd oedd cyfanswm costau rhedeg cartref (o ran gwresogi gofod a dwr, coginio, golau, offer a chostau tâl sefydlog) fel canran o incwm y cartref, gyda 10% yn drothwy lle y dywedir bod tlodi tanwydd yn digwydd uwchben iddo. Amcangyfrifwyd cyfanswm y costau rhedeg trwy ddefnyddio BREDEM 12 (y dull o gyfrifo costau rhedeg a ffafrir gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladau. Defnyddiwyd tri phatrwm gwresogi gwahanol: Llawn (sy'n tybio bod deiliaid gartref trwy'r dydd), Safonol (sy'n tybio bod deiliaid allan yn ystod y dydd) a Chymysg (rhai i mewn, rhai allan a rhai'n tan-feddiannu eu cartrefi).

Seiliwyd y dull o amcangyfrif incwm ar y dull a ddefnyddiwyd gan lywodraeth y DU ar gyfer cyfrifo tlodi ac ar gyfer ystadegau Cartrefi o dan Incwm Cyfartalog (HBAI). Ni thynnwyd rhai eitemau o wariant (treth gyngor, taliadau cynhaliaeth a chyfraniadau rhieni i fyfyrwyr), a dynnir o amcangyfrifon incwm dull yr HBAI, o'r astudiaeth hon. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn bod yn gyson â diffiniad Lloegr o dlodi tanwydd a dderbyniwyd gan y Cynulliad fel modd o fonitro newidiadau yn y niferoedd o bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Ystyriwyd dwy ffordd o ddiffinio incwm – Incwm Llawn (yn cynnwys Budd-dâl Tai) ac Incwm Sylfaenol (yn eithrio Budd-dâl Tai).

### Sampl HEES

Derbyniodd cyfanswm o 24,124 o gartrefi grant HEES rhwng Mawrth 2001 ac Ionawr 2004. Fel rhan o'r broses grantiau, arolygwyd cartrefi gan EAGA Cyf ac argymhellwyd pecynnau o welliannau. O'r 24,124 o gartrefi, nid oedd gan 6,031 o ffeiliau EAGA wybodaeth breswyllo gywir ac nid oedd gan 5,053 o ffeiliau eraill wybodaeth ddigonol i gyfrifo costau defnyddio tanwydd cyn ac yn dilyn ymyrraeth HEES. Anfonwyd holiadur i bob oedolyn yn y 13,040 o gartrefi a oedd yn weddill. Anfonwyd cyfanswm o 18,500 holiadur. Casglodd yr holiadur wybodaeth ar incwm a chafodd ei dreialu trwy gyfweliad wyneb yn wyneb mewn sampl o 50 cartref.

Dychwelwyd 2,710 holiadur ac o'r rhain gwrthodwyd 698 gan fod yr ymatebwr yn honni nad oedd wedi derbyn grant, neu nad oedd yr ymatebwr wedi llenwi'r holiadur yn y fath fodd i'r wybodaeth fod yn ddefnyddiol. Mewnosodwyd 2,012 holiadur o 1,680 cartref i gronfa ddata i'w dadansoddi. Croeswiriwyd y wybodaeth yn ôl dyddiad geni a rhyw, i sicrhau nad oedd sawl ffurflen o'r un cartref wedi eu dyblygu.

Cynrychiolwyd pob un o'r gwahanol fathau o gartrefi a oedd yn gymwys ar gyfer HEES yn dda yn yr arolygon a ddychwelwyd, er, fel y disgwylid, roedd y canran o arolygon a ddychwelwyd gan bensiynwyr yn uwch na chyfartaledd y pensiynwyr y gwyddid amdanynt yn sampl cyffredinol HEES. Cynrychiolwyd pob un o'r prif fudd-daliadau cymhwyso yn dda yn yr arolygon a ddychwelwyd. Cyfrifwyd pwysiad ôl-haeniad y boblogaeth mewn ymgais i ddiddymu gogwydd y sampl, yn ôl y math o gartref.

O'r 2,012 o arolygon dilys a ddychwelwyd, atebodd 1,842 gwestiwn ar incwm unigol ac atebodd 1,737 gwestiwn ar incwm y cartref. Defnyddiwyd cwestiwn band incwm yn unol ag argymhellion y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ac mae gwaith ymchwil yn dangos y gellir derbyn gwybodaeth ddibynadwy a chywir ar incwm unigol ac incwm y cartref trwy'r dull hwn.

Yn dilyn pwysiad, i ganiatáu am ogwydd y sampl a diffyg ymateb, cyfartaledd incwm wythnosol cartref llawn (yn cynnwys budd-dâl tai) oedd £204. Cyfartaledd incwm cartref sylfaenol (yn eithrio budd-dâl tai) oedd £196.

Ar gyfer y prif ddadansoddiad, cytunwyd i ddefnyddio: (a) incwm yn cynnwys budd-dâl tai, (b) patrwm gwresogi cymysg ac (c) grosio canlyniadau'r arolwg i fyny yn ôl y math o gartref.

### Canlyniadau

Darganfyddiadau allweddol yr adroddiad oedd:

- bod 29% o dderbynwyr HEES yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth.
- Tynnwyd hanner o'r rhain allan o dlodi tanwydd yn dilyn ymyrraeth HEES.
- Bod canran uchel o'r cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd yn perthyn i

bensiynwyr neu oedolion sengl (47%).  
Roeddent yn berchnogion-ddeiliaid a oedd yn defnyddio nwy fel eu prif danwydd gwresogi.

- Bod 18% o gartrefi a oedd yn gymwys trwy Lwfans Gweini ac 16% a oedd yn gymwys trwy Gredyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio, yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth.
- Mai 1% yn unig o gartrefi oedd ag incwm o fwy na £300 yr wythnos oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth.
- Y byddai mewnosod yr holl fesurau angenrheidiol i godi SAP yr eiddo i 70 yn lleihau canran y cartrefi a oedd yn ei dderbyn ac a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth o 14% i 7%.
- Ni fydd yn bosibl diddymu tlodi tanwydd trwy fesurau effeithlonrwydd ynni yn unig.

Cyflwynir canlyniadau manylach isod.

### **Priodolrwydd y meini prawf cymhwyster – A yw HEES yn cyrraedd y rhai bregus ar incwm isel sy'n dioddef o dlodi tanwydd?**

Amcangyfrifir mai canran y rhai sy'n derbyn HEES ac yn dioddef o dlodi tanwydd yw rhwng 29% a 36%, yn unol â'r diffiniadau o incwm a phatrymau gwresogi. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn y prif ddadansoddiad yn amcangyfrif bod 7,103 o gartrefi (29%) yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth. O'r rhain, 874 o gartrefi yn unig (4%) a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd enbyd neu eithafol.

Y grwpiau gyda'r cyfartaledd a'r niferoedd uchaf o rai'n dioddef o dlodi tanwydd oedd:

- Pensiynwyr sengl, rhai'n byw mewn cartrefi a oedd yn eiddo i'r deiliaid, rhai'n tan-feddiannu eu cartref ac yn defnyddio nwy fel eu prif danwydd.

- Rhai'n gymwys ar gyfer HEES oherwydd eu bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm (44%) a Budd-dâl Treth Gyngor (39%). Roedd y ddau grwp hyn yn gyfrifol am 27% o'r holl gartrefi a oedd yn derbyn y grant.

Y grwpiau gyda'r cyfartaledd a'r niferoedd isaf o rai'n dioddef o dlodi tanwydd oedd:

- Teuluoedd gyda 2 oedolyn, heb fod yn pensiynwyr, ac un neu fwy o blant.
- Rhai a oedd yn gymwys ar gyfer HEES oherwydd eu bod yn derbyn Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio (16%) a Lwfans Gweini (18%). Roedd y ddau grwp hyn yn gyfrifol am 21% o'r holl gartrefi a oedd yn derbyn y grant.
- Cartrefi gydag incwm wythnosol o fwy na £300.

Roedd y gyfran o gartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd, a oedd yn gymwys oherwydd Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn is na chyfran gyffredinol y rhai'n dioddef o dlodi tanwydd. Mae DLA yn gyfrifol am 29% o holl grantiau HEES, ond 26% yn unig o'r rhai a oedd yn gymwys oherwydd DLA a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd, o'i gymharu - â 29% yn gyffredinol, ar sail incwm llawn.

Mae'r meini prawf cymhwyster presennol yn ceisio cyrraedd y rhai bregus sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac yn byw mewn cartrefi incwm isel. Nid yw nifer o'r derbynwyr presennol ar incwm isel nac yn dioddef o dlodi tanwydd. Mewn gwirionedd, mae 15% o'r derbynwyr ag incwm wythnosol uwch na £300, a dim ond 1% o'r rhain sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Mae gan 41% o'r derbynwyr incwm o fwy na £200 yr wythnos – ac mae llai na 6% o'r rhain yn dioddef o dlodi tanwydd.

Grwpiau o boblogaeth HEES gydag achosion isel o dlodi tanwydd oedd:

- Cartrefi gyda 2 oedolyn a 2 neu fwy o blant (roedd 10% ohonynt yn dioddef o dlodi tanwydd).
- Cartrefi gydag incwm wythnosol o fwy na £200 yr wythnos (6%).
- Cartrefi yn defnyddio Lwfans Gweini (18%) neu Gredyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio (16%), fel eu budd-dâl cymhwys.
- Cartrefi mewn eiddo gyda SAP o 65 neu fwy (3%).

Mewn cyferbyniad, roedd grwpiau o boblogaeth HEES gydag achosion uchel o dlodi tanwydd yn:

- Gartrefi gyda phensiynwr neu oedolyn sengl (roedd o leiaf 40% o'r grwpiau hyn yn dioddef o dlodi tanwydd).
- Cartrefi mewn eiddo gyda SAP o 40 neu lai (50%).
- Cartrefi yn dibynnu ar wresogyddion ystafell (48%).
- Cartrefi yn dibynnu ar drydan uniongyrchol am eu cyflenwad tanwydd (72%).

Mae'r meini prawf presennol hefyd yn methu'r rhai nad ydynt yn derbyn budd-dâl ac sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Yn sicr, bydd yn rhaid ehangu neu addasu'r meini prawf cymhwyster os yw cyfran y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd i'w gynyddu'n sylweddol. Mae'r adroddiad yn edrych ar nifer o opsiynau.

### Digonolrwydd y cymorth a roddir gan HEES

Daeth mesurau HEES â chanran y rhai'n dioddef o dlodi tanwydd i lawr ymhlith derbynwyr HEES o 29% i 13%, fel mai ychydig dros hanner y derbynwyr a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd a godwyd o dlodi tanwydd. Mae hyn yn golygu bod amcangyfrif o 3,232 cartref (13%) yn parhau i fod mewn tldi tanwydd yn dilyn

HEES. Cynyddodd y mesurau gyfartaledd SAP yr holl gartrefi a driniwyd o 44 i 58, cynnydd o 14 pwynt SAP.

Roedd bron i 3,000 (12% o'r holl) gartrefi yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth yn dibynnu ar wresogyddion ystafell fel eu prif ddull o wresogi. Cododd HEES 70% o'r cartrefi hyn allan o dlodi tanwydd. Er nad yw'n gyfran fawr o'r holl gartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd cyn ymyrraeth HEES, codwyd 80% o gartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd ac yn defnyddio trydan uniongyrchol cyn ymyrraeth allan o dlodi tanwydd gan grant HEES.

### Sensitifrwydd i Brisiau Tanwydd

Byddai cynnydd mewn pris tanwydd o 30% yn dychwelyd bron pob un o'r cartrefi a symudwyd allan o dlodi tanwydd yn ôl i dlodi tanwydd. Byddai cynnydd o 5% yn codi canran y rhai sy'n parhau i fod mewn tldi tanwydd o 13% i 15%, a chynnydd o 10% mewn cost tanwydd yn cynyddu'r rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd i 18% a chynnydd o 20% i 23%.

### Effaith Mwy o Gymorth

Byddai'n amhosibl codi'r holl gartrefi allan o dlodi tanwydd trwy ddefnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni yn unig. Petai SAP yr holl gartrefi yn cael ei gynyddu i 65, byddai canran y rhai a fyddai'n parhau i fod mewn tldi tanwydd yn gostwng o 13% i 8%. Byddai canran y rhai'n dioddef o dlodi tanwydd yn gostwng i 4% petai'r holl gartrefi yn cael eu codi i SAP 80 ac i 1% ar SAP 100. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol bosibl nac yn gost-effeithiol i godi SAP i'r lefelau uchel hyn ym mhob eiddo.

Mae eiddo gyda SAP isel yn fwy tebygol o gynnwys cartrefi sydd mewn tldi tanwydd. Mae 80% o gartrefi sy'n derbyn grant HEES mewn eiddo gyda SAP o lai na 20 yn dioddef o dlodi tanwydd, o'i gymharu ag 20% yn unig, mewn cartrefi



gyda SAP o dros 50. Gellid tynhau'r meini prawf cymhwyster trwy wneud y cartrefi sydd â gwerth SAP uchel yn anghymwys. Petai'r cartrefi hynny a astudiwyd yn yr ymchwil hwn oedd â SAP o 65 neu fwy wedi cael eu hystyried yn anghymwys ar gyfer grant HEES, cynnydd o 29% i 30% yn unig fyddai wedi bod yng nghanran y cartrefi'n dioddef o dlodi tanwydd. I wneud gwahaniaeth sylweddol, byddai angen trothwy SAP is. Pe defnyddid SAP 50, byddai canran y cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd a gynorthwywyd wedi codi o 29% i 37%. Mae'n amlwg, felly, y byddai trothwy SAP wedi gwneud gwahaniaeth, ond nid un sylweddol. Mae hyn oherwydd mai dangosydd bras o dlodi tanwydd yw SAP gan nad yw'n ystyried maint na meddiant yr eiddo, heb son am incwm y cartref. Er enghraifft, mae 13% o'r cartrefi gyda SAP o 50 neu fwy yn yr astudiaeth yn cynnwys cartrefi eu hystyried yn rai sy'n dioddef o dlodi tanwydd. Byddai SAP o 50 wedi eithrio'r cartrefi hyn. Yr unig ffordd i leihau canran derbynwyr HEES nad ydynt yn dioddef o dlodi tanwydd yn sylweddol yw defnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni ac incwm. Os gwneir hyn, y mesur amlwg i'w ddefnyddio yw costau rhedeg fel canran o incwm (sef sylfaen y diffiniad o dlodi tanwydd a dderbynnir). Pe cyflwynid meini prawf cymhwyster ychwanegol, waeth bynnag fo'u natur, byddai angen fframwaith sicrhau ansawdd o fewn HEES, nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Hefyd, byddai'n arwain at ostyngiad yn nifer y cartrefi sy'n derbyn cymorth, felly byddai angen sicrhau ffordd o gynyddu nifer yr ymgeiswyr.

### Dyfodol HEES

#### Sut y gall HEES gyrraedd y rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac sy'n anghymwys ar hyn o bryd?

Mae cartrefi yn y grwp hwn yn rhannu'n ddau gategori:

- Heb gofrestru ar gyfer budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt, a rhai'n dioddef o dlodi tanwydd.
- Heb fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau ond yn dioddef o dlodi tanwydd oherwydd eu bod yn byw mewn cartrefi aneffeithlon iawn o ran ynni.
- Heb fod yn y categori bregus, incwm isel, ond yn dioddef o dlodi tanwydd.
- Mewn cartrefi eithaf effeithlon o ran ynni, ond yn dioddef o dlodi tanwydd.

Gall Gwiriadau Iechyd Budd-daliadau helpu'r rhai nad ydynt yn hawlio budd-daliadau i fod yn gymwys ar gyfer HEES. Fodd bynnag, ni fydd canran sylweddol o'r rhai a gyrhaeddir yn dioddef o dlodi tanwydd, yn yr un modd â gyda derbynwyr presennol HEES.

Gellir helpu'r rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac sy'n byw mewn cartrefi effeithlon o ran ynni, gyda chynghor safonol ar effeithlonrwydd ynni. Gallai'r cartrefi hyn gynnwys y rhai sydd eisoes wedi derbyn grant HEES, yn ogystal â'r rhai nas ystyrir yn gymwys ar hyn o bryd. Gellid darparu cynghor ehangach yn ystod yr arolwg ac ar ôl i'r mesurau gael eu gosod. Gellid cynorthwyo eraill trwy ddarparu cynghor i'r rhai sy'n ymgeisio am grant ond sy'n anghymwys.

Mae'n anodd gweld sut y gellir cyrraedd y rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac sy'n anghymwys ar gyfer grant HEES ar hyn o bryd, heb wneud asesiad unigol o dlodi tanwydd. Mae strategaeth bresennol Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddiddymu tlodi tanwydd o bob cartref erbyn 2018. Ffordd syml o ddechrau'r broses hon yw trwy sefydlu cyllideb ddisgresiynol ar gyfer achosion eithafol.

## Sut y gellir gwella effeithlonrwydd cynllun HEES i'r dyfodol?

Gellir crynhoi prif argymhellion yr adroddiad, fel a ganlyn:

Rheolwyr y cynllun i:

- Dderbyn targedau ar sail cyfartaledd gwelliannau SAP, yn ogystal â'r nifer o gartrefi a gyrhaeddwyd.
- Casglu data o fand incwm deiliaid a rhoi adroddiad chwarterol ar nifer y cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd a gyrhaeddwyd a'r graddau y gwaredwyd hwy o dlodi tanwydd.
- Gweithredu methodoleg sicrhau ansawdd i asesiadau SAP, fel y bo'r cyfrifiad SAP yn gallu cael ei ddefnyddio fel maen prawf ychwanegol ar gyfer cymhwyster ac ar gyfer amcangyfrif cyfanswm costau rhedeg.

Ymgymryd â rhagor o waith i:

- Asesu ymarferoldeb ehangu'r amrediad o fesurau a'r cyllid sydd ar gael, gan gynnwys mesurau incwm i godi pob cartref sy'n derbyn cymorth allan o dlodi tanwydd HEES i weld os gellir gwneud

mwy o ddefnydd o rwydweithiau cymunedol i ddod o hyd i'r cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd ac ystyried system cam cyflym i drin y cartrefi hyn.

- Ystyried cyllideb ddisgresiynol ar gyfer HEES ar gyfer achosion lle y mae tystiolaeth glir bod cartref yn dioddef o dlodi tanwydd ond yn anghymwys i dderbyn grant HEES, o dan y meini prawf presennol.
- Asesu ymarferoldeb defnyddio asesiad o dlodi tanwydd ar sail costau rhedeg fel canran o incwm, fel dewis arall i asesiad SAP, wrth (a) gosod targedau i reolwyr cynllun, (b) fel maen prawf yn lle'r SAP.
- Asesu ymarferoldeb newid y meini prawf cymhwyster, i'w seilio'n unig ar asesu'r lefel o dlodi tanwydd. Ymddengys mai hwn yw'r unig opsiwn i gyrraedd y rhai sy'n dioddef o dlodi tanwydd ond nad ydynt.
- Assess the viability of changing the eligibility criteria to be based solely on assessing the level of fuel poverty. This seems the only option for reaching non-vulnerable fuel-poor households.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn electronig yn [www.housing.wales.gsi.gov.uk](http://www.housing.wales.gsi.gov.uk). Os hoffech gael copi wedi'i argraffu, byddwch cystal â chysylltu â Helen Wyatt yn y cyfeiriad canlynol:

Helen Wyatt  
Uned Ymchwil a Gwybodaeth  
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays  
CAERDYDD CF10 3NQ  
Ffôn: (029) 2082 1718  
E-bost: [helen.wyatt@Wales.gsi.gov.uk](mailto:helen.wyatt@Wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan: <http://www.tai.cymru.gov.uk>